

Cynllun Peilot Clywedeg Gofal Sylfaenol

Rhys Meredith, Pennaeth Clywedeg, Natalie Phillips, Gwyddonydd Clinigol, Nicola Phillips, Prif Glywedegydd,
Patricia Pugh, Prif Glywedegydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg


Y Cyd-destun a'r Broblem

Roedd Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn wynebu pwysau cynyddol ar wasanaethau gofal eilaidd a sylfaenol ac amseroedd aros hir ar gyfer apwyntiadau arbenigol.

Strategaeth ar gyfer Newid

Mae'r cynllun Clywedeg Gofal Sylfaenol yn gyson ag egwyddorion gofal iechyd darbodus, a'r nod yw lleihau'r pwysau ar ofal sylfaenol a gwasanaethau y Clustiau, y Trwyn a'r Gwddf a gwella mynediad gleifion. Caiff gwasanaethau gofal y glust a chlywed eu cyflwyno o leoliadau gofal sylfaenol. Caiff cleifion â symptomau neu broblemau sy'n ymwneud â'r glust/clywed eu gweld gan Glywedegydd Gofal Sylfaenol yn hytrach na Meddyg Teulu neu nyrs practis. Bydd y Clywedegydd Gofal Sylfaenol yn asesu a rheoli'r achosion hyn yn annibynnol, ac yn atgyfeirio achosion at wasanaethau y Clustiau, y Trwyn a'r Gwddf neu Feddyg Teulu dim ond pan fydd barn feddygol yn angenrheidiol. Mynediad agored at arbenigedd clywedeg heb fod angen apwyntiad Meddyg Teulu

- Mynediad cyflymach at farn heb atgyfeirio at ofal eilaidd.
- Llai o bwysau ar ofal sylfaenol.
- Lleihau atgyfeiriadau amhriodol at adrannau'r Clustiau, y Trwyn ar Gwddf a chlywedeg
- Mynediad uniongyrchol i radioleg diagnostig lle bo angen



Mesur Gwelliannau

Gwll mynediad at arbenigedd clywedeg mewn gofal sylfaenol. Llai o alw ar Feddygon Teulu ym maes gofal sylfaenol ac ar wasanaethau y Clustiau, y Trwyn a'r Gwddf a Chlywedeg ym maes gofal eilaidd. Boddhad cleifion.


Dyfyndiad gan reolwr practis:

'Yn gryno; mae pawb ar eu hennill – mae wedi bod yn ychwanegiad hynod gadarnhaol at y model gwasanaeth yn y Ganolfan Adnoddau ac mae'r trawsnewid wedi bod yn esmwyth. Pe gallem ddechrau efelychu hyn ar draws gwasanaethau eraill hefyd byddai'n lleihau'r baich ar Ofal Sylfaenol yn sylweddol. Rwy'n credu ei fod yn beth cadarnhaol hefyd bod yr ateb yn un syml, technoleg-isel. Rwy'n gwybod bod y practisiau a y tu allan i'r ganolfan yn dymuno bod yn rhan o'r cynllun cyn gynted â phosibl'.

Effeithiau'r Newidiadau

Dewiswyd tri rhydwraith clwstr gofal sylfaenol; Cwmtawe, Afan a Dwyrain Pen-y-bont. Dechreuodd y clinigau cyntaf ym mis Awst 2016 ac ar hyn o bryd mae wyth meddygfa Meddygon Teulu yn cynnal clinigau clywedeg. Mae'r clinigau yn rheoli ac yn darparu cyngor ar gyfer ystod o gyflyrau sy'n ymwneud â'r glust yn cynnwys colli clyw, tinitws a rheoli cwrw clust.

Hyd yma, cafodd 42% o gleifion eu rheoli gan glywedegydd gofal sylfaenol yn unig a'u rhyddhau; cafodd 35% eu hatgyfeirio at y gwasanaeth clywedeg ar gyfer teclynnau clyw; 15% at y gwasanaeth y Clustiau, y Trwyn a'r Gwddf ac roedd angen barn Meddyg Teulu ar 6%. Mae hyn yn dangos y gall cyngor ar lefel gofal sylfaenol leihau'r galw ar glinigau y Clustiau, y Trwyn a'r Gwddf a Meddygon Teulu. Cafodd y gwasanaeth ganmoliaeth hefyd gan y cleifion sy'n ei ddefnyddio gan adrodd bod ganddynnt well dealltwriaeth o iechyd y glust; roedd y Mynegai Galluogi Cleifion yn dangos bod 95% o gleifion yn deall eu cyflwr yn well yn dilyn eu hymgyngoriad, 92% yn fwy hyderus ynglŷn â'u hiechyd ac roedd 94% o gleifion yn teimlo eu bod mewn gwell sefyllfa i helpu eu hunain.



Gwersi a ddysgwyd

Gall darparu asesiadau a chyngor clywedegol ar lefel gofal sylfaenol leihau'r galw ar glinigau y Clustiau, y Trwyn a'r Gwddf a Meddygon Teulu. Mae'r gwasanaeth yn elwa ar frysennu mewn gofal sylfaenol gan fod hyn yn hwyluso mynediad uniongyrchol i glywedegydd ar gyfer achosion addas.

